Cael babi

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r daflen ar gyfer rhieni sy'n disgwyl neu sydd newydd gael babi neu sy'n mabwysiadu babi neu blentyn ifanc.

Dylai fod yn ddefnyddiol os mai dyma eich babi cyntaf, neu os oes gennych blant eisoes.

Mae'n dweud wrthych am eich hawl i gael amser o'r gwaith, yn ogystal â phan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith ac mae'n rhoi cyngor sylfaenol am y cymorth ariannol y gallech ei gael yn ystod eich beichiogrwydd a misoedd cyntaf bywyd eich babi.

Mae hefyd yn dweud wrthych am y budd-daliadau y gallai fod gennych hawl iddynt tra'ch bod yn feichiog a'r cymorth sydd ar gael i'ch helpu i brynu'r pethau y bydd eu hangen arnoch ar gyfer eich babi.

Efallai yr hoffech ddarllen ein canllaw i rieni hefyd. Gallwch lawrlwytho copi yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu gofynnwch i ni am gopi.

Cynnwys

Eich hawliau os ydych yn gweithio.....5

Hawliau mamolaeth 6

Cyfnod mamolaeth 6

Tâl Mamolaeth Statudol 8

Beth yw ataliad mamolaeth? 13

Hawliau eraill ar gyfer rhieni 14

Os ydych yn mabwysiadu plentyn 14

Gweithio yn ystod eich cyfnod mamolaeth neu fabwysiadu a'r cyfnod tâl.....17

Tâl Tadolaeth Statudol a chyfnod tadolaeth 18

Cymorth ariannol arall os ydych yn cael babi 20

Lwfans Mamolaeth.....20

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth 28

Cymhorthdal Incwm.....28

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.....29

Dychwelyd i'r gwaith 30
Gweithio hyblyg 30
Bwydo o'r fron 32
Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant 32

Dod yn rhiant os ydych yn anabl 33
Cael babi a materion iechyd.....33
Dosbarthiadau rhianta 34
Cael babi a'r effaith ar eich budd-daliadau 34

Help gyda chostau eich babi 35
Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn.....35
Budd-dal Plant.....37
Cynhaliaeth plant 38
Lwfans Rhiant Gweddw.....39

Help gyda chostau iechyd 40

I gael rhagor o wybodaeth 41
Os na fyddwch chi a'ch cyflogwr yn cytuno.....41
Rhagor o wybodaeth 42

Eich hawliau os ydych yn gweithio

Mae gennych hawliau cyfreithiol penodol (hawliau mamolaeth statudol) os ydych yn feichiog neu os ydych newydd gael babi ac rydych yn gweithio i gyflogwr. Mae hyn yn golygu y gallwch gael amser o'r gwaith gyda thâl ar gyfer archwiliadau rheolaidd gyda'r meddyg a'r fydwraig, ar gyfer dosbarthiadau cynenedigol ac i fynd i'r ysbyty ar gyfer pethau fel sganiau.

Os nad yw eich gwaith yn addas i rywun sy'n feichiog, am resymau iechyd a diogelwch, rhaid i'ch cyflogwr edrych am ffyrdd i fynd i'r afael â hyn (gweler 'Beth yw ataliad mamolaeth?' ar dudalen 13).

Efallai y gallwch gael Tâl Mamolaeth Statudol gan eich cyflogwr i'ch helpu i gymryd amser o'r gwaith ar yr adeg y disgwylir i'ch babi gael ei eni ac am gyfnod ar ôl yr enedigaeth.

Os na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol, er enghraifft oherwydd eich bod yn hunangyflogedig, neu nad ydych yn gweithio (ond rydych wedi bod mewn swydd yn ddiweddar), efallai y gallwch gael Lwfans Mamolaeth (gweler tudalen 20).

Bydd eich hawliau mamolaeth statudol yn eich diogelu hefyd os cewch ein trin yn annheg yn y gwaith oherwydd eich bod yn feichiog neu os ydych wedi cael babi.

Mae gan y ddau riant yr hawl i 13 wythnos o absenoldeb rhiant di-dâl yn ystod 5 mlynedd gyntaf bywyd plentyn.

Mae gan rieni sy'n mabwysiadu plentyn hawliau tebyg. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i amser o'r gwaith, Cyfnod Mabwysiadu Statudol (gweler tudalen 14) i gwmpasu'r amser pan fydd plentyn newydd yn cynefino â'ch teulu. Gall y naill riant neu'r llall ei gymryd (ond nid y ddau). Gall rhai rhieni sy'n cymryd cyfnod mabwysiadu gael Tâl Mabwysiadu Statudol hefyd (gweler tudalen 15).

Hawliau mamolaeth

Cyfnod mamolaeth

Gall pob merch gyflogedig gael hyd at 52 wythnos o gyfnod mamolaeth. Gallwch ddewis dechrau eich cyfnod mamolaeth unrhyw amser o 11 wythnos cyn y disgwylir i'ch babi gael ei eni a gallwch gymryd y cyfnod hwn hyd yn oed os na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol. Ni chaniateir i chi weithio am y pythefnos cyntaf ar ôl yr enedigaeth (4 wythnos os ydych yn gweithio mewn ffatri).

Os ydych yn cael amser o'r gwaith oherwydd problemau iechyd sy'n gysylltiedig â'ch beichiogrwydd, unwaith y byddwch yn dechrau ar y bedwaredd wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni, gall eich cyflogwr ddechrau eich cyfnod mamolaeth.

Rhaid i'ch cyflogwr barhau i roi'r holl fuddiannau y byddech yn eu cael fel arfer pe baech yn gweithio drwy gydol eich cyfnod mamolaeth arferol ac ychwanegol.

Rydych yn dal yn gyflogai am gyfnod llawn eich cyfnod mamolaeth ac mae gennych yr hawl i ddychwelyd i'ch hen swydd, neu swydd debyg, ar ddiwedd eich cyfnod mamolaeth.

Beth i'w ddweud wrth eich cyflogwr

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr:

- eich bod yn feichiog
- pryd y disgwylir i'r babi gael ei eni, a
- pryd rydych am i'ch cyfnod mamolaeth ddechrau (gallwch newid y dyddiad yn ddiweddarach, os rhowch 28 diwrnod o rybudd iddynt).

Mae'n rhaid i chi roi gwybod iddynt o leiaf 15 wythnos cyn dechrau'r wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni.

Os nad yw hyn yn bosibl (er enghraifft, oherwydd nad oeddech yn sylweddoli eich bod yn feichiog), yna rhowch wybod iddynt cyn gynted â phosibl.

Gall eich cyflogwr ofyn am rybudd ysgrifenedig. Gallent ofyn am brawf o'ch beichiogrwydd hefyd (fel ffurflen MATB1W), a gewch gan eich meddyg neu fydwraig. Mae hon yn dweud pryd y disgwylir i'r babi gael ei eni.

Unwaith y byddwch wedi rhoi gwybod i'ch cyflogwr eich bod am gymryd cyfnod mamolaeth, dylent ysgrifennu atoch o fewn 28 diwrnod gan roi gwybod i chi pa ddyddiad y daw eich cyfnod mamolaeth i ben.

Os nad ydych am gymryd y 52 wythnos lawn o gyfnod mamolaeth, mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr pryd y byddwch yn dychwelyd. Gallwch newid eich meddwl am hyn yn ddiweddarach, ar yr amod eich bod yn rhoi 8 wythnos o rybudd iddynt o'r newid.

Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael rhagor o wybodaeth.

Tâl Mamolaeth Statudol

Os ydych yn gweithio i gyflogwr, efallai y gallwch gael Tâl Mamolaeth Statudol. Telir hwn gan eich cyflogwr am hyd at 39 o wythnosau, cyhyd â'ch bod yn bodloni'r amodau cymhwyso.

Os ydych yn cael Tâl Mamolaeth Statudol, bydd eich cyflogwr yn talu 90 y cant o'ch enillion wythnosol cyfartalog am y 6 wythnos gyntaf heb derfyn uchaf. Bydd eich cyflogwr naill yn talu'r gyfradd safonol o Dâl Mamolaeth Statudol ar gyfer y 33 wythnos sy'n weddill, neu 90 y cant o'ch enillion wythnosol cyfartalog os yw hynny'n llai na'r gyfradd safonol.

Gall cyfradd safonol Tâl Mamolaeth Statudol newid bob blwyddyn. Ewch i www.direct.gov.uk/cy neu www.canolfanbydgwaith.gov.uk i weld beth yw'r gyfradd bresennol.

Gallwch gael Tâl Mamolaeth Statudol os ydych:

- wedi'ch cyflogi gan gyflogwr yn y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni (Gelwir hyn yn yr wythnos gymhwyso) ac
- os ydych wedi'ch cyflogi'n barhaol gan y cyflogwr hwnnw am o leiaf 26 wythnos hyd at y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni (mae seibiannau penodol mewn cyflogaeth yn cyfrif o hyd), ac
- rydych wedi ennill incwm cyfartalog sy'n cyfateb i'r terfyn enillion is o leiaf at ddibenion Yswiriant Gwladol. Cyfrifir hyn dros gyfnod o 8 wythnos o leiaf i mewn i'r 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Gall y cyfnod hwn amrywio rhywfaint yn dibynnu ar sut y cewch eich talu fel arfer. Gall y terfyn enillion is newid bob blwyddyn. Ewch i www.direct.gov.uk/cy neu www.canolfanbydgwaith.gov.uk i gael gwybodaeth am y cyfraddau cyfredol.

Os ydych yn bodloni'r amodau ar gyfer talu Tâl Mamolaeth Statudol, gallwch ei gael hyd yn oed os na fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith. Nid oes rhaid i chi ei ad-dalu os byddwch yn penderfynu peidio â dychwelyd i'r gwaith.

Hefyd, os byddwch yn gadael eich cyflogaeth ar ôl dechrau'r 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni (er enghraifft os cewch eich diswyddo, neu ymddiswyddo), rhaid i'ch cyflogwr dalu Tâl Mamolaeth Statudol i chi o hyd os ydych yn bodloni'r amodau ar ei gyfer.

Gallwch ddewis pryd rydych am ddechrau cael eich Tâl Mamolaeth Statudol. Y dyddiad cynharaf y gall Tâl Mamolaeth Statudol ddechrau yw'r 11eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni, a'r diwrnod olaf y gall ddechrau yw ar y diwrnod ar ôl i'ch babi gael ei eni.

Os nad yw eich Tâl Mamolaeth Statudol wedi dechrau eto ac rydych i ffwrdd o'ch gwaith oherwydd eich beichiogrwydd ar ddechrau'r bedwaredd wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni neu ar ôl hynny, rhaid i'ch Tâl Mamolaeth Statudol ddechrau.

Os bydd hynny'n digwydd, bydd y Tâl Mamolaeth Statudol yn dechrau o'r diwrnod ar ôl i chi fod yn absennol o'r gwaith am y tro cyntaf oherwydd eich beichiogrwydd yn ystod y 4 wythnos hynny.

Os caiff eich babi ei eni cyn dechrau eich Tâl Mamolaeth Statudol, yna bydd yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'ch babi gael ei eni. Os caiff eich babi ei eni yn hwyrach na'r disgwyl, ond ar ôl i'ch Tâl Mamolaeth Statudol ddechrau, ni fydd eich Tâl Mamolaeth Statudol yn newid.

Os oes gennych fwy nag un swydd, efallai y gallwch gael Tâl Mamolaeth Statudol gan bob cyflogwr.

Fel arfer telir Tâl Mamolaeth Statudol yn yr un ffordd ac ar yr un pryd â'ch cyflog arferol.

Caiff Tâl Mamolaeth Statudol ei drin fel cyflog arferol, felly bydd eich cyflogwr yn didynnu treth ac Yswiriant Gwladol fel arfer.

Os na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol, ond cawsoch eich cyflogi'n ddiweddar neu rydych yn hunangyflogedig, efallai y gallwch gael Lwfans Mamolaeth (gweler tudalen 20).

Codiadau cyflog

Os bydd eich cyflogwr yn rhoi codiad cyflog sy'n dod i rym ar unrhyw adeg o ddechrau'r cyfnod a ddefnyddir i gyfrifo eich Tâl Mamolaeth Statudol (y cyfnod penodol) a diwedd eich cyfnod mamolaeth, rhaid i'ch cyflogwr ail-gyfrifo eich Tâl Mamolaeth Statudol. Rhaid i'ch cyflogwr hefyd ail-gyfrifo'r Tâl Mamolaeth Statudol os cewch godiad cyflog a ddaw i rym cyn dechrau'r cyfnod penodol, ond nad oedd yr enillion a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad yn adlewyrchu'r codiad cyflog hwnnw.

Mae diwedd y cyfnod mamolaeth yn golygu diwedd unrhyw gyfnod mamolaeth arferol neu ychwanegol a gymerwch.

Gefeilliaid neu enedigaethau lluosog

Os ydych yn disgwyl mwy nag un babi, mae eich hawl i Dâl Mamolaeth Statudol yn union fel petaech yn disgwyl un babi.

Marw-enedigaethau

Hyd yn oed os yw eich babi ond yn byw am ennyd, mae'n enedigaeth fyw a bydd hawl gennych i Dâl Mamolaeth Statudol o hyd os ydych yn gymwys i'w gael.

Os caiff eich babi ei eni yn farw yn gynharach na 25ain wythnos eich beichiogrwydd, ni fyddwch yn gallu cael unrhyw Dâl Mamolaeth Statudol.

Ond gallech gael Tâl Salwch Statudol. Siaradwch â'ch cyflogwr am hyn.

Os caiff eich babi ei eni yn farw ar ôl dechrau 25ain wythnos eich beichiogrwydd, mae hawl gennych i'r un Tâl Mamolaeth Statudol ac y byddech wedi'i gael pe bai eich babi wedi cael ei eni'n fyw.

Beth i'w ddweud wrth eich cyflogwr

Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth feddygol i'ch cyflogwr o'r dyddiad y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Fel arfer bydd hyn ar dystysgrif mamolaeth (MATB1W) y gallwch ei chael gan eich meddyg neu'ch bydwraig. Ni allwch gael y dystysgrif hon hyd nes y byddwch wedi cyrraedd yr 20fed wythnos cyn y disgwylir i'ch babi gael ei eni (fel arfer 21ain wythnos y beichiogrwydd). Fel arfer bydd eich meddyg neu'ch bydwraig yn rhoi'r MATB1W i chi yn eich apwyntiad cynenedigol nesaf ar ôl hynny.

Er mwyn cael Tâl Mamolaeth Statudol, mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad rydych am i'ch Tâl Mamolaeth Statudol ddechrau. Os allwch gael cyfnod mamolaeth a Thâl Mamolaeth Statudol, mae'n well rhoi gwybod i'ch cyflogwr y dyddiad rydych am i'ch Tâl Mamolaeth Statudol ddechrau ar yr un pryd ag y byddwch yn dweud wrth eich cyflogwr am eich cyfnod.

Os na all eich cyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol i chi, byddant yn rhoi ffurflen (SMP1W) i chi a fydd yn nodi'r rheswm pam na allant wneud hynny'n ysgrifenedig. Os ydych o'r farn bod penderfyniad eich cyflogwr i beidio â thalu Tâl Mamolaeth

Statudol i chi yn anghywir, neu os nad ydych yn cael y swm cywir, siaradwch â'ch cyflogwr am hynny. Os byddwch yn dal i anghytuno â'r penderfyniad, dylech gysylltu â Thîm Anghydfodau Taliadau Statudol Cyllid a Thollau EM ar 0191 225 5221.

Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael rhagor o wybodaeth.

Beth yw ataliad mamolaeth?

Unwaith y bydd eich cyflogwr yn gwybod eich bod yn feichiog, rhaid iddynt edrych ar eich gweithle a'r math o waith rydych yn ei wneud i weld a oes unrhyw risgiau iechyd a diogelwch i chi neu'ch babi. Os oes risgiau na ellir eu hosgoi, rhaid i'ch cyflogwr gymryd camau i gynnig gwaith addas arall i chi (ar yr un telerau ac amodau o leiaf â'ch rôl bresennol).

Os nad oes unrhyw ddewisiadau gwaith addas eraill, rhaid i'ch cyflogwr eich atal ar gyflog llawn am gyn hired ag sy'n angenrheidiol i ddiogelu eich iechyd a diogelwch chi a'ch babi. Mae hyn yn golygu eich bod yn dal yn gyflogai iddynt ac y byddwch yn cael yr holl hawliau a buddiannau gwaith gan eich cyflogwr. Gall y cyfnod hwn o 'ataliad mamolaeth' gyfrif tuag at eich hawl i Dâl Mamolaeth Statudol.

Os cynigir math gwahanol o waith i chi, ond y byddwch yn ei wrthod heb reswm da, nid oes rhaid i'ch cyflogwr eich talu.

Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael rhagor o wybodaeth.

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Hawliau eraill i rieni

Os ydych yn mabwysiadu plentyn

Efallai y gall rhieni sy'n gyflogedig gael Tâl Mabwysiadu Statudol a chyfnod mabwysiadu. Efallai y gallwch ei gael os byddwch ym mabwysiadu plentyn ar eich pen eich hun neu os ydych yn rhan o gwpl sy'n mabwysiadu plentyn.

Os ydych yn rhan o gwpl, gallwch benderfynu rhwng y ddau ohonoch, pwy fydd yn hawlio Tâl Mabwysiadu Statudol. Gall y person arall gymryd cyfnod tadolaeth â thâl (gweler 'Tâl Tadolaeth Statudol a chyfnod tadolaeth' ar dudalen 18).

Er mwyn cael hwn, mae'n rhaid i chi fod:

- wedi'ch paru gyda phlentyn i'w fabwysiadu gan asiantaeth fabwysiadu
- wedi'ch cyflogi gan eich cyflogwr presennol heb doriad am o leiaf 26 wythnos hyd at ac yn cynnwys yr wythnos y rhoddodd yr asiantaeth fabwysiadu wybod i chi eich bod wedi eich paru gyda phlentyn i'w fabwysiadu, ac yn
- ennill mwy na'r terfyn enillion is ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Gall y lefel enillion isaf i fod yn gymwys ar gyfer Tâl Mabwysiadu Statudol newid bob blwyddyn. Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael gwybodaeth am y gyfradd gyfredol.

Ynglŷn â Chyfnod Mabwysiadu Statudol

Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu fod wedi'i chydnabod yn briodol gan gyfraith y DU. Nid oes gennych unrhyw hawliau cyfreithiol os byddwch yn trefnu mabwysiadu'n breifat.

Gall y naill riant neu'r llall gymryd cyfnod mabwysiadu, ar yr amod eu bod yn bodloni'r rheolau cyflogaeth. Os oes hawl gennych i gael cyfnod mabwysiadu, gallwch gymryd hyd at 52 wythnos o'r gwaith.

Gelwir y 26 wythnos gyntaf o fabwysiadu yn 'cyfnod mabwysiadu arferol'. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i'ch cyflogwr barhau i roi'r holl fuddiannau y byddech yn eu cael fel arfer pe baech yn y gwaith (er enghraifft, aelodaeth o gampfa).

Gelwir yr ail 26 wythnos o cyfnod mabwysiadu yn 'gyfnod mabwysiadu ychwanegol'. Yn ystod y cyfnod hwn, nid oes rhaid i'ch cyflogwr roi'r holl fuddiannau y byddech yn eu cael fel arfer, er y gallant ddewis gwneud hynny.

Rydych yn dal yn gyflogai am gyfnod llawn eich cyfnod mabwysiadu ac mae gennych yr hawl i ddychwelyd i'ch hen swydd, neu swydd debyg, ar ddiwedd eich cyfnod mabwysiadu.

Mae rheolau arbennig yn gymwys os byddwch yn mabwysiadu plentyn o dramor. Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael rhagor o wybodaeth.

Ynglŷn â Thâl Mabwysiadu Statudol

Telir Tâl Mabwysiadu Statudol am 39 wythnos ar lefel benodol uchaf neu 90 y cant o'ch cyflog wythnosol cyfartalog (cyn

didynnu treth ac Yswiriant Gwladol), p'un bynnag sydd isaf.

Gallwch ddewis pryd rydych am ddechrau cael eich Tâl Mabwysiadu Statudol. Gall ddechrau o'r dyddiad y caiff y plentyn ei leoli neu hyd at 14 diwrnod cyn y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli.

Bydd eich cyflogwr yn talu eich Tâl Mabwysiadu Statudol yn yr un ffordd ac ar yr un pryd â'ch cyflog arferol.

Caiff Tâl Mabwysiadu Statudol ei drin fel cyflog arferol, felly bydd eich cyflogwr yn didynnu treth ac Yswiriant Gwladol fel arfer.

Os oes gennych fwy nag un swydd, efallai y gallwch gael Tâl Mabwysiadu Statudol gan bob cyflogwr.

Beth i'w ddweud wrth eich cyflogwr

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr y byddwch yn cymryd cyfnod mabwysiadu a'ch bod am wneud cais am Dâl Mabwysiadu Statudol o fewn un wythnos o gael gwybod eich bod wedi'ch paru gyda phlentyn i'w fabwysiadu.

Mae'n rhaid i chi hefyd roi o leiaf 6 wythnos o rybudd i'ch cyflogwr yn ysgrifenedig o bryd rydych am i'ch cyfnod mabwysiadu a Thâl Mabwysiadu Statudol ddechrau.

Bydd angen i chi roi prawf ysgrifenedig i'ch cyflogwr oddi wrth yr asiantaeth fabwysiadu sydd wedi'ch paru â phlentyn. Dylech ddod o hyd i hwn ar y dystysgrif paru a roddir i chi.

Os nad ydych am gymryd y 52 wythnos lawn o gyfnod mabwysiadu, mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr pryd y byddwch yn dychwelyd. Gallwch newid eich meddwl am hyn yn ddiweddarach, ar yr amod eich bod yn rhoi 8 wythnos o rybudd iddynt o'r newid.

Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael rhagor o wybodaeth.

Gweithio yn ystod eich cyfnod mamolaeth neu fabwysiadu a'r cyfnod tâl

Yn ystod eich cyfnod, gall fod yn ddefnyddiol cadw mewn cysylltiad â'ch cyflogwr.

Gallai hyn fod er mwyn trafod pethau fel trefniadau i chi ddychwelyd i'r gwaith, neu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am newidiadau yn y gwaith.

Os byddwch chi a'ch cyflogwr yn cytuno, gallwch wneud hyd at 10 diwrnod o waith, a elwir yn 'ddyddiau cadw mewn cysylltiad'. Gellir gwneud y gwaith hwn heb golli Tâl Mamolaeth Statudol na Thâl Mabwysiadu Statudol a heb ddod â'ch cyfnod i ben.

Bydd unrhyw waith a wneir ar unrhyw ddiwrnod yn ystod cyfnod yr cyfnod mamolaeth neu fabwysiadu yn cyfrif fel diwrnod cadw mewn cysylltiad llawn, hyd tuag at y terfyn o 10 diwrnod.

Ni all eich cyflogwr eich gorfodi i weithio yn ystod y cyfnod hwn os nad ydych am wneud hynny.

Tâl Tadolaeth Statudol a chyfnod tadolaeth

Pan fydd eich gwraig, partner neu bartner sifil yn rhoi genedigaeth neu'n mabwysiadu plentyn, gallwch gael Tâl Tadolaeth Statudol. Arian a delir gan eich cyflogwr i'ch helpu i gymryd amser o'r gwaith yw hwn.

Er mwyn ei hawlio mae'n rhaid mai chi yw tad biolegol neu'r sawl sy'n mabwysiadu'r plentyn neu'n ŵr, partner neu bartner sifil i'r fam (neu'r sawl sy'n mabwysiadu) ac yn disgwyl cael cyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn.

Gallwch wneud cais am Dâl Tadolaeth Statudol os ydych:

- wedi'ch cyflogi gan eich cyflogwr presennol yn ystod y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni neu - ar gyfer mabwysiadu - wedi'ch cyflogi yn yr wythnos y rhoddodd yr asiantaeth fabwysiadu wybod i chi eich bod wedi eich paru gyda phlentyn
- wedi'ch cyflogi gan eich cyflogwr presennol heb doriad am o leiaf 26 wythnos erbyn 15fed wythnos cyn y disgwylir i'r babi gael ei eni neu - ar gyfer mabwysiadu - wedi'ch cyflogi hyd at ac yn cynnwys yr wythnos y cawsoch eich paru gyda phlentyn, ac
- bod yn ennill digon (ar gyfartaledd) i fod yn berthnasol at ddibenion Yswiriant Gwladol.

Gallwch naill ai gymryd un wythnos neu bythefnos gyda'i gilydd. Ni all eich cyflogwr dalu Tâl Tadolaeth Statudol i chi ar gyfer unrhyw wythnos yr oeddech yn gweithio.

Gallwch ddewis pryd rydych am ddechrau gwneud cais am eich Tâl Tadolaeth Statudol. Gall eich cyfnod tadolaeth ddechrau ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos:

- ar neu ar ôl genedigaeth y babi, ond rhaid iddo orffen o fewn 8 wythnos i'r dyddiad geni gwirioneddol (neu 8 wythnos ar ôl y dyddiad geni disgwyliedig os caiff y babi ei eni yn gynnar), neu
- o ddyddiad lleoli'r plentyn (os ydych yn mabwysiadu plentyn), ond rhaid iddo orffen o fewn 8 wythnos i ddyddiad y lleoliad.

Os oes gennych fwy nag un swydd, efallai y gallwch gael Tâl Tadolaeth Statudol gan bob cyflogwr.

Caiff Tâl Tadolaeth Statudol ei drin fel cyflog arferol, felly bydd eich cyflogwr yn didynnu treth ac Yswiriant Gwladol fel arfer.

Beth i'w ddweud wrth eich cyflogwr

Os ydych yn bwriadu cymryd cyfnod tadolaeth, mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr erbyn y 15fed wythnos cyn y disgwylir i'ch babi gael ei eni, neu o fewn wythnos o gael gwybod gan yr asiantaeth fabwysiadu eich bod wedi'ch paru â phlentyn. Os na fyddwch, efallai na fyddwn yn gallu cymryd y cyfnod. Os byddwch yn newid eich meddwl, rhaid i chi roi 4 wythnos o rybudd i'ch cyflogwr.

Mae'n rhaid i chi hefyd roi o leiaf 6 wythnos o rybudd o pryd rydych am i'ch Tâl Tadolaeth Statudol ddechrau.

Bydd angen i chi roi hunandystysgrif i'ch cyflogwr sy'n dangos eich bod yn bodloni'r holl amodau i gymryd cyfnod tadolaeth.

Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael rhagor o wybodaeth.

Cymorth ariannol arall os ydych yn cael babi

Lwfans Mamolaeth

Os ydych yn feichiog neu os ydych wedi cael babi yn ddiweddar ac na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol, efallai y gallwch gael Lwfans Mamolaeth.

Gellir ei dalu am hyd at 39 o wythnosau.

Pwy all wneud cais amdano?

Gallwch gael Lwfans Mamolaeth os:

- nad oes hawl gennych i gael Tâl Mamolaeth Statudol gan eich cyflogwr nac unrhyw gyflogwr os oes gennych fwy nag un cyflogwr, neu
- rydych wedi'ch cyflogi'n ddiweddar, ond nid ydych wedi'ch cyflogi ar hyn o bryd, neu
- rydych yn hunangyflogedig.

Mae'n rhaid i chi fod wedi'ch cyflogi a/neu'n hunangyflogedig am o leiaf 26 wythnos yn ystod y 66 wythnos hyd at yr wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Gelwir y cyfnod 66 wythnos hwn yn ‘gyfnod prawf’. Nid oes rhaid i'r 26 wythnos hyn fod yn olynol.

Rhaid i chi fod ag enillion wythnosol cyfartalog (cyn tynnu treth ac Yswiriant Gwladol) o £30 o leiaf. Caiff hyn ei gyfrifo o unrhyw 13 wythnos yn eich cyfnod prawf.

Faint y byddaf yn ei gael?

Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill. Gallech gael:

- y gyfradd safonol sy'n gallu newid bob blwyddyn, neu
- 90 y cant o'r hyn rydych yn ei ennill ar gyfartaledd mewn wythnos, os yw'r 90 y cant hwnnw yn llai na chyfradd safonol Lwfans Mamolaeth.

Ewch i www.direct.gov.uk/cy neu cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael manylion am y gyfradd gyfredol.

Er mwyn gweithio allan faint y gallwch ei gael, rydym yn edrych ar eich cyfnod prawf. Gallwch ddewis unrhyw 13 wythnos allan o'ch cyfnod prawf. Nid oes rhaid i'r 13 wythnos fod yn olynol. Dylech ddewis yr 13 wythnos lle yr enillwyd y mwyaf gennych fel y gallwch gael mwy o Lwfans Mamolaeth. Yna, byddwn yn gweithio allan eich enillion cyfartalog wythnosol o'r 13 wythnos a ddewiswyd gennych ac mae hyn yn penderfynu faint o arian y byddwch yn ei gael. Gallwn gyfri'r arian a enillir gennych o bob un o'ch swyddi ac unrhyw waith a wnewch i chi eich hun.

Os ydych yn gyflogedig a'ch bod yn cael codiad cyflog sy'n cwmpasu wythnos yn eich cyfnod prawf 66 wythnos, ac rydych yn cael llai na'r gyfradd safonol o Lwfans

Mamolaeth, gallwch ofyn i ni edrych ar eich cais am Lwfans Mamolaeth unwaith eto gan y gallech gael rhagor o arian.

Os ydych yn hunangyflogedig ac wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth 2 am 13 wythnos yn ystod eich cyfnod prawf, byddwch yn cael y gyfradd safonol o Lwfans Mamolaeth.

Os oes gennych dystysgrif eithriad enillion bach, dim ond y swm isaf o Lwfans Mamolaeth y gallwn ei dalu i chi (bydd angen i chi anfon y dystysgrif eithriad enillion bach atom pan fyddwch yn gwneud cais).

Os ydych yn hunangyflogedig ac wedi'ch cyflogi gan rywun arall yn ystod eich 13 wythnos ddewisol, byddwn hefyd yn cyfri'r arian y byddwch yn ei ennill o'ch cyflogaeth fel y gallwch gael rhagor o Lwfans Mamolaeth.

Gwneud cais ar gyfer dibynnydd sy'n oedolyn

Gallech gael rhagor o arian os oes gennych oedolyn sy'n ddibynnol arnoch. Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth.

Sut i wneud cais

Gallwch wneud cais am Lwfans Mamolaeth cyn gynted â'ch bod wedi bod yn feichiog am 26 wythnos. Gallwch gael ffurflen gais:

- ar-lein yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu
- dros y ffôn ar 0800 055 6688

Tystysgrif eithriad enillion Isel

Mae hwn yn berthnasol i bobl hunangyflogedig sydd ag elw, neu elw a ragwelir, sydd yn is na'r lefel y mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth 2 yn daladwy.

Y swyddfa cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n dosbarthu'r tystysgrifau hyn

Am ragor o wybodaeth ffoniwch y llinell gymorth hunangyflogaeth: 0845 915 4655

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Peidiwch ag oedi cyn gwneud cais gan y gallech golli'r arian ychwanegol am unrhyw gyfnod cyn 3 mis cyn i chi wneud eich cais.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni i benderfynu faint o Lwfans Mamolaeth y gallwch ei gael.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych faint y bydd.

Pa brawf sydd angen i mi ei anfon gyda'r ffurflen gais?

Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth feddygol i ni o'r dyddiad y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Fel arfer bydd hyn ar dystysgrif mamolaeth (MATB1W) y gallwch ei chael gan eich meddyg neu'ch bydwraig. Ni allwch gael y dystysgrif hon hyd nes y byddwch wedi cyrraedd yr 20fed wythnos cyn y disgwylir i'ch babi gael ei eni (fel arfer 21ain wythnos y beichiogrwydd). Fel arfer bydd eich meddyg neu'ch bydwraig yn rhoi'r MATB1W i chi yn eich apwyntiad cynenedigol nesaf ar ôl hynny.

Mae'n rhaid i chi anfon eich slipiau cyflog gwreiddiol atom hefyd ar gyfer y 13 wythnos a ddewiswyd gennych i ni gyfrifo eich enillion wythnosol cyfartalog (gweler tudalen 21). Byddwn yn eu dychwelyd atoch. Os oeddech wedi'ch cyflogi yn y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni, mae'n rhaid i chi gael ffurflen SMP1W gan eich cyflogwr (neu gyflogwyr os oes gennych fwy nag un), sy'n rhoi'r rheswm pam na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol.

Os ydych yn gweithio i chi'ch hun ac mae gennych dystysgrif eithriad enillion bach, rhaid i chi ei hanfon atom. Byddwn yn ei dychwelyd atoch.

Peidiwch ag aros hyd nes bydd gennych eich prawf – gallwch ei anfon atom yn ddiweddarach.

Pryd y gallaf wneud cais?

Gallwch wneud cais 14 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Os byddwch yn penderfynu gweithio'n hwyrach yn eich beichiogrwydd, gallwch wneud cais am Lwfans Mamolaeth cyn i chi roi'r gorau i weithio. Byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi am y dyddiad pan roesoch y gorau i weithio er mwyn cael eich babi fel y gallwch ddechrau cael eich taliadau.

Os byddwch yn anfon eich cais atom yn rhy gynnar, byddwn yn ei ddychwelyd atoch ac yn gofyn i chi ei anfon yn ddiweddarach.

Os byddwch yn gwneud cais ar ôl geni'ch babi, gofynnwch i'r meddyg neu fydwraig ysgrifennu'r dyddiad y disgwyliwyd i'ch babi gael ei eni ar dystysgrif MATB1W.

Os byddwch yn gwneud cais dros 3 mis ar ôl y dyddiad y disgwyliwyd i'r Lwfans Mamolaeth ddechrau, byddwch yn colli arian.

Pryd y telir Lwfans Mamolaeth

Y cynharaf y gallwn dalu eich Lwfans Mamolaeth i chi yw dechrau'r 11eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Dim ond os na fyddwch yn gweithio o hyd y bydd eich Lwfans Mamolaeth yn dechrau. Os byddwch yn parhau i weithio ar ôl yr 11eg wythnos, bydd y dyddiad rydych yn dechrau cael eich arian yn dibynnu ar pryd y byddwch yn rhoi'r gorau i weithio i gael eich babi.

Os nad yw eich taliadau Lwfans Mamolaeth wedi dechrau ac rydych wedi cael eich babi, bydd eich Lwfans Mamolaeth yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i chi gael eich babi.

Os nad ydych wedi dechrau eich Lwfans Mamolaeth ac na allwch weithio oherwydd eich beichiogrwydd ar ddechrau'r 4ydd wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni, neu ar ôl hynny, rhaid i'ch Lwfans Mamolaeth ddechrau.

Bydd yn dechrau o'r diwrnod ar ôl i chi fod yn absennol o'r gwaith gyntaf am y rheswm hwn yn y cyfnod hwn o 4 wythnos.

Os yw eich Lwfans Mamolaeth wedi dechrau a bod eich babi yn cael ei eni yn hwyr, ni fydd eich Lwfans Mamolaeth yn newid. Os nad yw eich Lwfans Mamolaeth wedi dechrau ac rydych yn parhau i weithio heibio'r dyddiad y disgwylir i'ch babi gael ei eni, bydd eich Lwfans Mamolaeth yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i chi roi genedigaeth.

Os caiff eich babi ei eni yn gynnar ac mae eich Lwfans Mamolaeth wedi dechrau eisoes, ni fydd dim yn newid.

Marw-enedigaethau

Hyd yn oed os bydd eich babi yn byw am enyd, mae'n enedigaeth fyw a bydd hawl gennych i gael Lwfans Mamolaeth os ydych yn gymwys i'w gael.

Os genir eich babi yn farw yn gynharach na 25ain wythnos eich beichiogrwydd, ni fyddwch yn cael unrhyw Lwfans Mamolaeth. Ond efallai y gallwch gael Tâl Salwch Statudol os ydych wedi'ch cyflogi neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Os genir eich babi yn farw ar ôl 25ain wythnos eich beichiogrwydd, mae hawl gennych i'r un Lwfans Mamolaeth ag y byddech wedi'i gael pe bai eich babi wedi'i eni'n fyw.

Gefeilliaid neu enedigaethau lluosog

Os ydych yn disgwyl mwy nag un babi, mae eich hawl i Lwfans Mamolaeth yn union fel y mae os byddech yn disgwyl un babi.

Telir Lwfans Mamolaeth yn syth i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Gallwch ddewis cael eich talu bob wythnos neu bob 4 wythnos.

Ni allwn dalu eich Lwfans Mamolaeth i mewn i gyfrif os byddwch yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar yr un pryd.

Ewch i www.direct.gov.uk/cy neu cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth.

Newidiadau y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich Lwfans Mamolaeth. Gallai'r rhain gynnwys:

- os byddwch yn gwneud unrhyw waith neu'n dychwelyd i'r gwaith
- os byddwch yn dechrau cael Tâl Mamolaeth Statudol
- os byddwch yn gadael y DU, neu
- os byddwch yn mynd i'r carchar.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn dychwelyd i'r gwaith?

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os byddwch yn dychwelyd i'r gwaith cyn i'ch Lwfans Mamolaeth ddod i ben. Gallwch weithio am hyd at 10 diwrnod i gyflogwr neu fel person hunangyflogedig heb golli unrhyw daliadau Lwfans Mamolaeth. Gelwir y rhain yn ddyddiau 'cadw mewn cysylltiad'. Os byddwch yn gweithio am fwy na 10 diwrnod, daw eich taliadau Lwfans Mamolaeth i ben.

Sut y gall budd-daliadau eraill effeithio ar Lwfans Mamolaeth

Efallai y cewch lai o Lwfans Mamolaeth, neu ddim o gwbl os cewch fudd-dal arall neu lwfans hyfforddi.

Tra'ch bod yn cael Lwfans Mamolaeth ni fyddwch yn gallu cael Lwfans Ceisio Gwaith. Efallai y gallwch gael budd-daliadau eraill, fel Cymhorthdal Incwm, ar gyfradd is.

Ewch i www.canolfanbydgwaith.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth

Os ydych yn feichiog ac na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth i gwmpasu eich amser o'r gwaith, efallai y gallwch wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Gellir talu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o 6 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni hyd at 14 diwrnod ar ôl i'r babi gael ei eni. Ni allwch wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gyfer unrhyw wythnos y byddwch yn gweithio yn ystod y cyfnod hwn.

Os byddwch yn gwneud cais ond na fyddwch yn gymwys i gael Lwfans Mamolaeth, byddwn yn edrych i weld a allwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn lle hynny.

Cymhorthdal Incwm

Os yw eich babi newydd yn golygu y byddwch ar incwm isel, neu na fydd gennych incwm o gwbl, efallai y gallwch wneud cais am Gymhorthdal Incwm. Nid oes rhaid i chi fod wedi talu Yswiriant Gwladol i'w gael.

- Gallech wneud cais am Gymhorthdal Incwm os ydych yn feichiog ac y disgwylir i'ch babi gael ei eni yn ystod yr 11 wythnos nesaf, neu am hyd at 15 wythnos ar ôl i chi roi genedigaeth i'r babi. Er mwyn gwneud cais mae'n rhaid bod gennych bartner sy'n gweithio'n llawn amser ac ni fyddwch yn gweithio neu y byddwch yn gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

- Os ydych yn rhiant unigol (sengl) gallech barhau i gael Cymhorthdal Incwm ar ôl yr amser hwn.

Efallai y gallwch wneud cais am Gymhorthdal Incwm hefyd:

- tra byddwch yn cymryd Cyfnod Tadolaeth Statudol os na fyddwch yn cael tâl tadolaeth, neu
- os ydych yn cael tâl tadolaeth yn ystod eich Cyfnod Tadolaeth Statudol, ond eich bod eisoes yn cael Credyd Treth Gwaith, Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor.

Mae eich cynilion yn effeithio ar eich Cymhorthdal Incwm.

Os byddwch yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm, dylech wneud cais am Gredyd Treth Plant hefyd (gweler tudalen 32). Os oes gennych forgais, efallai y gallwch gael help gyda'ch taliadau llog morgais a chostau tai eraill nad ydynt wedi'u cwmpasu gan Fudd-dal Tai.

Sut i wneud cais

Ffôn:
0800 012 1888

Ffôn testun:
0800 023 48 88

Dydd Llun i ddydd Gwener
8am i 6pm

Ar-lein:
www.dwp.gov.uk/eservice/welsh

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Os ydych ar incwm isel yn ystod eich beichiogrwydd (ac ar ôl i'ch babi gael ei eni), gall Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor helpu tuag at dalu eich rhent a'ch treth cyngor. Nid oes rhaid i chi fod yn cael budd-daliadau eraill i fod yn gymwys.

Am ragor o wybodaeth, neu i wneud cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Mae manylion cyswllt eich cyngor lleol yn eich llyfr ffôn neu ar y rhyngrwyd yn

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

www.direct.gov.uk/cy o dan 'A-Z of local councils'.

Sut i wneud cais

Os ydych yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Pensiwn, cewch ffurflen i wneud cais am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor gyda'ch pecyn cais.

Fel arall, gallwch gael ffurflenni ar gyfer Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor gan eich cyngor lleol.

Os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun neu'n ei rentu yn breifat, gallech fod yn gymwys i gael help gyda chostau gwresogi neu inswleiddio (neu'r ddau).

Help gyda chynhesu neu insiwleiddio eich cartref

Yng Nghymru a Lloegr, cysylltwch â'r Llinell Gyngor Cadw'n Gynnes yn y Gaeaf
0800 085 7000

Yn yr Alban, ffoniwch Scottish Gas i gael gwybodaeth.

Warm Deal
0800 316 6009

Y rhaglen gwres canolog
800 316 1653

Dychwelyd i'r gwaith

Gweithio hyblyg

Gallai fod gennych yr hawl i ofyn i'ch cyflogwr ystyried yr opsiwn o weithio'n hyblyg pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith. Gallai hyn gynnwys:

- newid nifer yr oriau rydych yn eu gweithio
- newid y diwrnodau a'r amseroedd rydych yn eu gweithio, neu
- gweithio o gartref (naill am yr wythnos gyfan neu ran ohoni).

Mae gennych yr hawl hon os rydych wedi eich cyflogi gan eich cyflogwr am o leiaf 26 wythnos yn olynol ar yr adeg rydych yn gofyn am weithio'n hyblyg. Dim ond unwaith bob 12 mis y mae gennych yr hawl i wneud cais amdano. Mae'r hawl yn cynnwys y

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

ddau riant a gallwch wneud cais ar unrhyw adeg, ar yr amod eich bod yn gofalu am blentyn o dan 6 oed (neu 18 oed os yw eich plentyn yn anabl).

Os nad oes gennych blentyn o dan 6 oed (neu blentyn anabl o dan 18 oed), gallwch barhau i ofyn i'ch cyflogwr am oriau gweithio hyblyg o hyd. Nid oes rhaid iddynt ystyried eich cais, ond mae llawer o gyflogwyr yn cefnogi gweithio hyblyg er mwyn cadw staff da.

Os oes gennych hawl i ofyn am weithio hyblyg, rhaid i'ch cyflogwr ystyried eich cais o ddifrif. Fodd bynnag, gallant wrthod eich cais neu awgrymu opsiwn hyblyg neu ran-amser arall sy'n gweithio'n well iddynt.

Os ydych yn ystyried gweithio hyblyg, dylech siarad â'ch cyflogwr cyn gynted â phosibl. Yn ôl y gyfraith, gall y broses o wneud cais ac i'ch cyflogwr ei ystyried gymryd hyd at 14 wythnos, felly gwnewch gais yn ysgrifenedig mewn da bryd.

Mae angen i chi gofio, os bydd eich cyflogwr yn cytuno i'ch cais, bydd hyn yn newid eich contract cyflogaeth yn barhaol. Os na fydd eich cyflogwr yn cytuno i weithio hyblyg, ac nid oes ganddo reswm busnes da dros hynny, gallai fod gennych yr hawl i apelio yn erbyn ei benderfyniad.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.direct.gov.uk/cy/employees neu gallwch gael cyngor cyfrinachol am ddim gan linell gymorth Acas ar 0845 747 47 47.

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Bwydo o'r fron

Os hoffech barhau i fwydo o'r fron pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith, rhaid i'ch cyflogwr eich cefnogi. Mae'n rhaid i chi roi rhybudd ysgrifenedig i'ch cyflogwr fel y gallant baratoi ar gyfer y cyfnod pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith.

Yna mae'n rhaid i'ch cyflogwr siarad â chi am unrhyw drefniadau y bydd angen iddynt eu gwneud ac asesu unrhyw risgiau i chi neu eich babi.

Rhaid i gyflogwyr ddarparu cyfleusterau i chi orffwys a storio llaeth wedi'i odro.

Am ragor o wybodaeth, gofynnwch i'ch ymwelydd iechyd am daflen y GIG 'Breastfeeding and work'.

Llinell gymorth credydau treth

Gwefan:
www.hmrc.gov.uk

Ffôn:
0845 300 3900

Ffôn testun:
0845 300 3909

Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant

Mae credydau treth ar gael i helpu pobl sy'n gweithio ond sydd ar incwm isel a rhieni sydd ar incwm isel.

Os ydych yn gyfrifol am blant neu bobl ifanc, efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant.

Os ydych yn gweithio a bod gennych incwm isel, gallech gael Credyd Treth Gwaith hefyd. Gall Credyd Treth Gwaith helpu i dalu costau gofal plant.

Gallech gael hyd at 80 y cant o'ch costau gofal plant cymwys yn ôl. Os hoffech gael gwybod mwy am gredydau treth, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM.

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Dod yn rhiant os ydych yn anabl

Os ydych yn bwriadu dod yn rhiant neu gymryd cyfrifoldebau rhiant, efallai bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i ofalu am eich plentyn. Gallai hyn fod yn help yn y cartref, offer neu help gyda phethau 'bob dydd' fel ymweld ag ysgol eich plentyn.

Gall eich awdurdod lleol, yn cynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol neu iechyd ac addysg, gynnig y cymorth hwn.

Cael babi a materion iechyd

Mae'n bwysig cael gafael ar wybodaeth a'r gwasanaethau mamolaeth cywir sy'n ystyried cyflwr meddygol neu anabledd y fam, neu'r ddau.

Gallech ddechrau drwy siarad am unrhyw faterion gyda'ch meddyg. Gallai'r pethau i'w trafod gynnwys:

- cynllunio beichiogrwydd a beichiogi
- sut y gall anabledd neu gyflwr meddygol penodol (neu'r ddau) effeithio ar eich beichiogrwydd a rhoi genedigaeth (gan gynnwys materion fel cymryd meddyginiaeth tra'ch bod yn bwydo o'r fron)
- sganiau a phrofion, a
- cymorth iechyd i chi a'ch babi newydd.

Dosbarthiadau rhianta

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn cwmpasu llawer o feysydd o fywyd bob dydd, gan gynnwys cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau. Dylai dosbarthiadau rhianta wneud 'addasiadau rhesymol' er mwyn sicrhau y gall pobl ag anableddau fynd i'r dosbarthiadau.

Gallai addasiadau rhesymol gynnwys:

- defnyddio pen a phapur i gyfathrebu â chi os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, neu ddarparu dolenni sain mewn ystafell benodol
- cynnal y dosbarth mewn lleoliad hygyrch (er mwyn osgoi grisiau, er enghraifft) ar gyfer rhieni ag anabledd corfforol, neu
- trefnu i rywun egluro'r hyn sy'n cael ei ddweud yn y dosbarth yn fwy syml ar gyfer person sydd ag anabledd dysgu.

Cyn i chi fynd i ddosbarth rhianta am y tro cyntaf, dylech ddweud wrth y bobl sy'n trefnu'r dosbarth am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych.

Llinell gymorth Lwfans Byw i'r Anabl

Ffôn:
0845 712 3456

Ffôn testun:
0845 722 4433

Cael babi a'r effaith ar eich budd-daliadau

Dylech gysylltu â llinell gymorth Lwfans Byw i'r Anabl os ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl ac mae eich anghenion yn newid o ganlyniad i ddod yn rhiant. Byddant yn gallu ystyried a yw eich newid mewn amgylchiadau yn effeithio ar gyfradd y Lwfans Byw i'r Anabl y dylech ei chael.

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Help gyda chostau eich babi

Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

Mae hwn yn un taliad i helpu i dalu am bethau sydd eu hangen arnoch ar gyfer babi newydd os ydych ar incwm isel a'ch bod yn cael budd-dal neu gredyd treth cymwys.

Mae'r grant yn ddi-dreth ac nid oes rhaid i chi ei dalu'n ôl.

A allaf gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn?

Efallai y gallwch gael un o'r grantiau hyn os disgwylir i'ch babi neu fabi eich dibynnydd gael ei eni'n fuan, neu os cafodd ei eni yn ystod y tri mis diwethaf.

Os genir eich babi yn farw ar ôl dechrau'r 25ain wythnos o'ch beichiogrwydd, efallai y gallwch gael un o'r grantiau hyn o hyd.

Gallwch wneud cais hefyd:

- os ydych wedi mabwysiadu babi bach yn ddiweddar
- o dan rai amgylchiadau, os ydych wedi cael gorchymyn preswylio ar gyfer babi, neu
- os ydych wedi cael gorchymyn rhieni ar gyfer babi a anwyd i rywun arall.

Pa fudd-daliadau y mae'n rhaid i mi fod yn eu cael?

Mae'n rhaid i chi, neu eich partner, fod yn cael un o'r budd-daliadau hyn.

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Cymhorthdal Incwm

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol, neu
- Credyd Treth Plant, ar gyfradd sy'n uwch na'r elfen deuluol

Pryd y gallaf wneud cais?

- Os ydych chi neu'ch partner neu'ch dibynnydd yn disgwyl babi neu wedi cael babi yn ddiweddar, mae'n rhaid i chi wneud cais yn ystod y cyfnod o 11 wythnos cyn y disgwylir i'r babi gael ei eni hyd at 3 mis ar ôl yr enedigaeth neu'r farw-enedigaeth.
- Os ydych wedi mabwysiadu babi neu os ydych wedi cael gorchymyn preswylio mewn perthynas â babi, gallwch wneud cais am grant ar yr amod nad yw'r babi dros 12 mis oed pan fyddwch yn gwneud cais. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn tri mis o'r dyddiad y gwnaethoch fabwysiadu neu'r gorchymyn preswylio.
- Os ydych chi a'ch gŵr neu wraig wedi cael gorchymyn rhieni ar gyfer babi a anwyd i rywun arall, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis i ddyddiad y gorchymyn rhieni.

Os ydych wedi gwneud cais am un o'r budd-daliadau y dylech fod yn eu cael i gael y grant hwn a'ch bod yn aros am benderfyniad, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn y terfynau amser uchod o hyd.

Dirprwy enedigaeth

Dirprwy enedigaeth yw pan fo merch arall yn rhoi genedigaeth ar ran cwpl. Dim ond i gyplau priod y gellir rhoi gorchymyn rhieni ar gyfer babi a anwyd i rywun arall.

Sut y dylwn wneud cais?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael ffurflen gais drwy fynd i www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu edrychwch am y manylion yn y llyfr ffôn.

Budd-dal Plant

Telir Budd-dal Plant i'r person sy'n gyfrifol am blentyn. Nid yw eich incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol na'ch cynilion yn effeithio arno.

Byddwch yn ei gael hyd nes bydd eich plentyn yn cyrraedd 16 oed, ac efallai'n hwy os ydynt mewn addysg llawn amser.

Sut i wneud cais

Os byddwch yn cael 'pecyn bounty' gan yr ysbyty neu'r fydwraig, dylai gynnwys ffurflen gais.

Gallwch hefyd gael un o'r llinell gymorth Budd-dal Plant.

Ffôn: 0845 302 1444

Ffôn testun: 0845 302 1474

Neu ewch i www.direct.gov.uk/cy i gwblhau'r ffurflen ar-lein.

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Cynhaliaeth plant

Os ydych yn magu plentyn sydd â rhiant nad yw'n byw gyda chi, efallai y gallwch gael taliadau cynhaliaeth plant. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gynhaliaeth plant, mae gwasanaeth diduedd a elwir yn Opsiynau Cynhaliaeth Plant y gallwch gysylltu â hwy i gael help wrth sefydlu trefniant cynhaliaeth i chi a'ch teulu.

Ni fydd gan Opsiynau Cynhaliaeth Plant eich gwybodaeth bersonol i allu ateb cwestiynau ar eich cais am fudd-dal. Fodd bynnag, gallant helpu rhieni sy'n ystyried trefnu cynhaliaeth ar gyfer eu plant. Byddant yn eich helpu i ddeall pa opsiynau sydd ar gael ac yn gallu'ch helpu i sefydlu trefniadau cynhaliaeth. Gallant eich helpu hefyd i wybod ble i fynd ac â phwy y dylech siarad os oes problemau eraill y mae angen eu datrys, fel dyled neu dai.

Ffôn: 0800 988 0988

Ffôn testun: 0800 988 9888

Neu ewch i www.cmoptions.org

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Lwfans Rhiant Gweddw

Os bydd eich gŵr neu bartner yn marw tra'ch bod yn disgwyl babi, neu bydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw ar ôl geni'r babi, gallech gael Lwfans Rhiant Gweddw.

Telir y lwfans tan na fydd gennych blentyn dibynnol mwyach.

Byddwch yn cael cyfradd sylfaenol Lwfans Rhiant Gweddw (a fydd yn dibynnu ar gofnod Yswiriant Gwladol eich gŵr, gwraig neu bartner sifil). Byddwch yn cael pensiwn arall yn seiliedig ar enillion eich gŵr, gwraig neu bartner sifil hefyd.

Sut i wneud cais

Pan fyddwch yn cofrestru marwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil, rhoddir tystysgrif marwolaeth i chi. Er mwyn gwneud cais am Lwfans Rhiant Gweddw a budd-daliadau profedigaeth eraill, cwblhewch ffurflen B8 a gewch ar yr un pryd a'i dangos i'r Ganolfan Byd Gwaith. Byddwn yn anfon ffurflen gais atoch y bydd angen i chi ei chwblhau a'i dychwelyd atom.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud cais o fewn 3 mis i farwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil.

Ewch i www.canolfanbydgwaith.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Help gyda chostau iechyd

Os ydych yn feichiog, dylai eich meddyg neu'ch bydwraig ofyn i chi gwblhau ffurflen i gael Tystysgrif Eithrio Mamolaeth. Mae hyn yn golygu y gallwch gael triniaeth y GIG a thriniaeth ddeintyddol am ddim hyd nes y bydd eich babi yn 12 mis oed. Nid yw'n gymwys i gwrs o driniaeth ddeintyddol roeddech yn ei chael cyn i chi feichiogi.

Os ydych yn rhiant ac yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm neu Gredyd Treth Plant ac rydych ar incwm isel, gallech gael help gyda chostau rhai triniaethau, gwasanaethau ac eitemau i chi neu eich plentyn.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am help gan y GIG, ewch i wefan yr ardal lle rydych yn byw:

- Cymru www.nhsdirect.wales.nhs.uk/small/cy/hafan/gwybodaethiechyd
- Lloegr www.nhs.uk/healthcosts
- Yr Alban www.scotland.gov.uk/publications

I gael rhagor o wybodaeth

Os na fyddwch chi a'ch cyflogwr yn cytuno

Os nad ydych yn fodlon â phenderfyniad eich cyflogwr am unrhyw un o'ch hawliau mamolaeth neu am eich hawliau o ran dychwelyd i'r gwaith, dylech siarad ag ef cyn gynted â phosibl er mwyn ceisio datrys y broblem.

Os byddwch yn dal yn anfodlon, gallwch gael cyngor cyfrinachol am ddim gan Acas. Gallech gael cyngor gan eich undeb llafur neu ganolfan cyngor ar bopeth leol hefyd.

Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad eich cyflogwr am Dâl Mamolaeth Statudol, gallwch ofyn i Cyllid a Thollau EM ei ystyried.

Gallwch gysylltu â Chyllid a Thollau EM drwy:

- fynd i wefan Cyllid a Thollau EM yn www.hmrc.gov.uk/enq neu
- ffonio Tîm Anghydfodau Taliadau Statudol Cyllid a Thollau EM ar 0191 225 5221

Am wybodaeth am gostau galwadau - ewch i dudalen 42

Rhagor o wybodaeth

Ewch i www.direct.gov.uk/cy i gael rhagor o wybodaeth am hawliau mamolaeth a chyflogaeth yn ogystal â budd-daliadau ar gyfer rhieni newydd.

Gallwch hefyd gysylltu â'r sefydliad canlynol.

Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (Acas)

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim am hawliau a materion cyflogaeth.

Ffôn: 0845 747 4747

Ffôn testun: 0845 606 1600

Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

O Medi 2008 ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 7c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn tesun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir.

Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un.

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Hydref 2008.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-214-2
DWP1031W | f1.0 (Hydref 2008)

Hoffem gael eich barn am y daflen hon.

Atebwch y cwestiynau isod, rhwygwch y slip a i ddychwelyd at y cyfeiriad rhadbost dros y dudalen. Mae eich atebion yn gwbl gyfrinachol ac fe i defnyddir i wella'r daflen hon.

Pa mor ddefnyddiol oedd y dafl en hon wrth ateb eich cwestiynau?

☐ defnyddiol iawn ☐ eithaf defnyddiol ☐ ddim yn ddefnyddiol ☐ dim o gwbl

Pa mor hawdd ydoedd i ddod o hyd i r wybodaeth yr oedd ei hangen arnoch?

☐ defnyddiol iawn ☐ eithaf defnyddiol ☐ ddim yn ddefnyddiol ☐ dim o gwbl

Oes unrhyw dudalennau yn y daflen hon y byddech yn eu gwella mewn unrhyw ffordd? Os felly, pa dudalennau a sut?

_____

_____

_____

Ydych chi n credu y byddwch yn cyfeirio at y daflen hon eto yn y dyfodol?

☐ byddaf ☐ na fyddaf

Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y daflen hon?

_____

_____

_____

Nid oes yn rhaid i chi gwblhau'r rhan hon, ond mae n ein helpu i ddeall mwy am ein cwsmeriaid.

Ydych chi'n: ☐ gwryw ☐ fenyw

Beth yw eich oedran? _____

Beth yw eich cod post? _____

Dylid defnyddio r ffurflen hon i roi sylwadau ar y daflen hon yn unig. Bydd ymatebion yn mynd i gwmni sy n darparu adroddiadau am y ffurflenni a dderbyniwyd ganddynt, a dim ond i gael gwell syniad o sut i wella ac rydym yn ei ddefnyddio. Ni all yr Adran Gwaith a Phensiynau ateb cwestiynau unigol am fudd-daliadau neu lwfansau a ofynnir ar y daflen hon.

Freepost RLUG-AXKG-BGXJ
Department for Work and Pensions
Leaflet Feedback
Jobcentre Plus Marketing
Level 1
Steel City House
West Street
Sheffield
S1 2GQ